# Cofnodion Cyfarfod 12/12/2024

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Eluned Jones, Fiona Hopkins, Huw Symonds, Sion McGuinness, Rhys Evans, Jacqueline Allen, Ken Edwards, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Moira Mai, Eifion Roberts, Clare Mackintosh ac Eric Williams.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans. Estynnwyd croeso arbennig i'r Cyng Ken Edwards i'w gyfarfod cyntaf o'r cyngor, ac fe gydymdeimlwyd â'r cyn gynghorydd Tony Parry a'r teulu yn eu colled o golli Megan Parry.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiad o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 7/11/24.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**
    i. Sedd Wag y Cyngor: Cadarnhawyd fod y cynghorydd Ken Edwards wedi cwblhau'r Datganiad Derbyn Swydd, y Cofrestr Buddiannau a'r Daflen Lwfans Aelodau.
    ii. Tomen y Bala: Adroddwyd fod neges wedi ei hanfon at Glwb Rotari'r Bala i barhau'r drafodaeth am feinciau ar y Domen, ac hefyd fod staff y Parc Cenedlaethol yn gweithio ar gynllun i reoli rhododendron ar y domen, hyn fel rhan o'r Gronfa Her Natur a chynllun bioamrywiaeth y cyngor tref.
    iii. Cynllun Celf Canol Trefi: Nodwyd fod lansiad o'r gwaith celf wedi ei gynnal ar Ragfyr 4ydd, pryd y daeth yr artist, disgyblion o Ysgol Godre'r Berwyn, staff y Coop a chynrychiolwyr o'r Cyngor Tref at ei gilydd i ddathlu cwblhau'r gwaith. Cytunwyd i holi a oes bwriad i ddatblygu cynllun celf arall yn y dref.
    iv. Materion Stryd Fawr – cafwyd ymateb gan NMWTRA i'r cais am dabl o gyfrifoldebau gwahanol awdurdodau am wahanol agweddau o reoli'r Stryd Fawr, gwybodaeth ddefnyddiol iawn fydd yn hwyluso gwaith y Cyngor Tref i'r dyfodol. Cytunwyd i wneud cais i fainc gael ei gosod yn y bwlch ger Hoffi Coffi os yn bosibl.
    v. Glanhau Llochesi Bws: Cytunwyd i dderbyn y prisiad am lanhau dau loches bws ychwanegol rhwng Cae Croes a'r Ganolfan Hamdden, gyda'r cytundeb i ddod i ben yr un pryd â chytundeb gweddill llochesi bws y dref.

vi. Trwydded Clwb Rygbi: Derbyniwyd gwybodaeth fod Cyngor Gwynedd wedi caniatáu'r cais. Adroddwyd fod goleuadau llachar wedi eu gadael ymlaen dros nos yn y Clwb Rygbi yn ddiweddar, a bod hyn wedi effeithio ar drigolion sy'n byw yn ymyl y clwb.
vii. Meinciau ger cofeb Tom Ellis: Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi atgyweirio'r meinciau yma, NMWTRA wedi atgyweirio'r meinciau ger HSBC, a Thîm Tacluso Ardal Ni yn atgyweirio'r fainc ger Siop Ria.
viii. Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg: Cytunwyd i gefnogi prif egwyddorion yr adroddiad, sef i ddynodi ardaloedd fel ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, ac i ddatblygu polisi i atgyfnerthu hyn. Cytunwyd i anfon neges yn cadarnhau hyn at Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru.
ix. Diogelwch yr A494: Cadarnhawyd fod neges wedi ei hanfon yn gofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa yma.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, a dywedodd fod y gwaith o ail wynebu'r Stryd Fawr wedi ei ohirio tan ddechrau'r flwyddyn, fod arolwg yn cael ei wneud o gyflwr y pafin ger Awel y Coleg, a bod trafodaeth ar adnewyddu tai yn Heol y Berwyn. Dywedodd fod setliad ariannol y cyngor am y flwyddyn yn bryderus, ac y gall hyn arwain at sefyllfa ariannol fregus.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Cafwyd diweddariad o'r dathliadau, a nodwyd fod y gweithgareddau wedi eu cwblhau, gyda'r Noson Wobrwyo yn Theatr Derek Williams wedi bod yn llwyddiant mawr.

**7. Is-bwyllgorau:**

Is Bwyllgor Nadolig: Adroddwyd fod y goleuadau Nadolig wedi eu goleuo, a'r coed yn edrych yn hardd iawn. Nodwyd hefyd fod prif ddisgyblion Ysgol Godre'r Berwyn wedi dyfarnu'r wobr Ffenest Siop Nadolig i Siop Ria, a bod Ria yn dymuno i wobr y Cyngor Tref o £50 fynd tuag at yr Ardd Gymunedol. Cytunwyd i wneud y taliad yma.
Is Bwyllgor Asedau: Cadarnhawyd y trefniadau ar gyfer glanhau'r llochesi bws ychwanegol.
Is bwyllgor Tref Gyfeillgar: Adroddwyd fod rhai sianeli dwr ar balmentydd yn beryglus i gerddwyr llai abl – y Cyng Eluned Jones i anfon lluniau ymlaen i amlygu'r broblem.
Is Bwyllgor Bioamrywiaeth: Dim i'w adrodd.
Is bwyllgor Cyllid: Cyflwynwyd adroddiad o gyfarfod o'r Is Bwyllgor a gynhaliwyd ar Ragfyr 11eg. Cytunwyd i dderbyn y prif argymhellion, sef i osod cyllideb gwariant o £36,612 a phraesept o £28,500 am y flwyddyn 2025/2026, hyn yn golygu treth o £34.80 i bob cartref Band D.
Is bwyllgor Twristiaeth Gynaliadwy: Dim i'w adrodd.
Cytunwyd i'r Cyng Huw Symonds weithredu ar yr Is bwyllgor Nadolig.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**
Un Llais Cymru Meirionnydd: Dim adroddiad.
Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn: Dim adroddiad.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)

Cwmni Pum Plwy Penllyn: Adroddwyd fod y sgaffaldau wedi eu gosod ar Ganolfan Bro Tegid, a'r adeiladwyr yn barod i gychwyn ar y gwaith ar y to. Cytunwyd i'r Cyng Huw Symonds i gynrychioli'r cyngor ar fwrdd Cwmni Pum Plwy Penllyn.

8. **Materion Cynllunio**: NP5/53/3C: Newid defnydd o siop trin gwallt gwag i fflat (Dosbarth Defnydd C3) 50 Heol Arenig, Y Bala. LL23 7AL. Cytunwyd i gefnogi'r cais.

*9.* **Materion Cyllid:**

- **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £12,627.89 yn y cyfri cyfredol, £26,818.74 yn y cyfri cadw a £181.50 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod balans o £853.97 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd, a £3,000 wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiad y Cae Astro.
- **ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog y Clerc, anfonebau cynnal a chadw Tomen y Bala, cynnal a chadw gwefan y cyngor, lluniaeth y cyngor ar Dachwedd 7fed, anfoneb flynyddol yr ICO ac anfonebau Bala 700.
- **iii.** Cytunwyd i drosglwyddo £400 i Gronfa Maer y Dref.
- **iv.** Cytunwyd i ail ymaelodi â'r SLCC ac i dalu'r tâl aelodaeth.

**10. Gohebiaeth:**

- i) Arolwg Cymunedau Cyngor Gwynedd: Nodwyd nad oes bwriad i newid y nifer o gynghorwyr ar y Cyngor Tref.
- ii) Trefniadau Parcio yn y Plase a'r Grin: Nid oedd sylwadau ar newidiadau arfaethedig Cyngor Gwynedd i'r trefniadau parcio a thalu.
- iii) Arolwg Coed: Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi gwneud arolwg o goed y Stryd Fawr.
- iv) Un Llais Cymru: Nodwyd derbyn y daflen '10 Peth Pwysig i'w Gwneud', sef taflen yn rhoi arweiniad ar brif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r Cyngor Tref.
- v) Gwasanaeth Bws T3: Nodwyd fod cyfarfod ymgynghori wedi ei gynnal yn ddiweddar.
- vi) Ail wynebu'r Stryd Fawr: Derbyniwyd gwybodaeth fod y gwaith wedi ei ohirio tan W/C Ionawr 6ed 2025, hyn yn dilyn cais gan gynghorwyr y dref i'r gwaith beidio amharu ar brysurdeb y dref cyn y Nadolig.
- vii) Derbyniwyd taflen yn nodi rhaniad y cyfrifoldebau rhwng Liz Saville-Roberts aelod o senedd San Steffan, a Mabon ap Gwynfor, aelod o Senedd Cymru.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

Nid oedd materion i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 2 Ionawr 2025.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)